# Adroddiad Blynyddol a Chrynodeb Ariannol 2014/2015

Children in Wales
Plant yng Nghymru



# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Cymru Ifanc 4

Datblygu a chefnogi rhwydweithiau cryf 5

Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth 7

Polisi, datblygu ymarfer ac ymchwil 9

Ymgynghori 11

Cynrychiolaeth 12

Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol 14

Cynadleddau a digwyddiadau 15

Hyfforddiant 16

Prosiect Cynnwys Teuluoedd 18

Gyda'n Gilydd dros Hawliau (T4R) 19

Llywodraethiant 20

Aelodaeth 21

Crynodeb ariannol 23








# Cyflwyniad

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Ein nod yw hybu buddiannau'r grwpiau hyn a gweithredu i ddiwallu eu hanghenion trwy wneud y canlynol:

- Cyfrannu at wireddu hawliau plant yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais

Corff o aelodau yw Plant yng Nghymru, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau a luniwyd i hysbysu'r aelodau ynghylch datblygiadau newydd ac i hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym ni'n elusen gofrestredig ac yn gorff anllywodraethol, annibynnol. Rydym hefyd yn cael ein hariannu o dan Grant Datblygu Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru o fis Hydref ar gyfer prosiect tair blynedd i leihau anghydraddoldebau iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi, gan weithio i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Hysbysu a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol a sicrhau bod Gweinidogion a llunwyr polisi yn clywed eu barn
- Sicrhau bod y gweithlu plant a phobl ifanc yn cael gwybod am hawl plant i gyfranogi, a bod strwythurau yn eu lle i hwyluso rhannu dulliau cyfranogi effeithiol
- Cefnogi gweithlu amlasiantaeth mwy gwybodus ac ymgysylltiedig ar draws y sector, gan gynnwys llunwyr polisi ac ymarferwyr, i gyflawni Polisi Llywodraeth Cymru
- Dylanwadu'n effeithiol a chyfrannu at ddatblygu polisi ac ymarfer, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar, ataliaeth a lliniaru tlodi, wedi'i seilio ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut cyflawnwyd yr amcanion hyn trwy ein gwaith yn ystod 2014/15.



# Cymru Ifanc

Cymru Ifanc – Young Wales yw'r gwaith cyfranogiad sy'n cael ei ariannu gan Grant Datblygu Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd. Dechreuodd y gwaith ym mis Hydref 2014.

Plant yng Nghymru sy'n arwain Cymru Ifanc, ac mae Lleisiau o Ofal, Tros Gynnal, Promo Cymru a Youth Friendly yn bartneriaid i ni yn y gwaith hwnnw. Mae gennym hefyd femorandwm o ddealltwriaeth gyda Gweithredu dros Blant a Barnardos Cymru.

Cymru Ifanc
Young Wales

Ar ôl peth gwaith rhagarweiniol yn cwrdd â fforymau ieuenctid ac yn datblygu ein hadnoddau ar-lein, lansiwyd Cymru Ifanc ddydd Gwener 27 Mawrth, pan ddaeth pobl ifanc o'r fforymau ledled Cymru i gyfarfod yn y Drenewydd i benderfynu ar eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn.

Roedd hyn yn cynnwys lansio gwefan newydd, www.cymruifanc.org.uk, a chyfrif Twitter penodedig, @YoungWalesCIW.



Y blaenoriaethau a nodwyd gan y fforymau oedd:

- Perthnasoedd iach
- Diogelwch ar-lein
- Iechyd meddwl
- Bwlio a throseddau atgasedd
- Camddefnyddio sylweddau
- Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant

Mae Cymru Ifanc yn gweithio gyda nifer o sefydliadau eraill fel yr NSPCC, prosiect Teithio Ymlaen ac NUS Cymru i gefnogi a hyrwyddo'u gwaith. Bydd ysgolion, grwpiau ieuenctid eraill ac unigolion hefyd yn bwydo i'n gwaith wrth iddo ddatblygu. Byddwn hefyd yn hwyluso proses fydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc o Gymru gymryd rhan yn Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn nesaf.

Bydd Cymru Ifanc yn gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu clywed ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac yn effeithio arnyn nhw, a bod Llywodraeth Cymru yn eu clywed.

# Datblygu a chefnogi rhwydweithiau cryf

*"Mae'r staff bob amser wedi bod yn barod eu cymwynas ac yn gwrtais iawn. Proffesiynol iawn ac effeithiol yn eu rolau"*

*Aelod o Plant yng Nghymru*

**Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso rhwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i drafod materion polisi ac ymarfer. Maen nhw'n hanfodol i'n gwaith gan eu bod yn ein helpu i ddeall materion sy'n destun pryder sy'n effeithio ar sefydliadau ar draws y sector plant. Trwy'r rhwydweithiau hyn gallwn roi gwybod i'r aelodau am ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a sicrhau bod gennym safbwyntiau priodol ar ddatblygiadau polisi.**

**Cywaith –** Partneriaeth gydweithredol yw Bwrdd Rheoli Cywaith o 5 sefydliad sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio rheoli, gweithredu a chyflawni gwasanaeth cyngor a chymorth ffôn, gwibnegeseua a negeseuon testun MEIC i blant a phobl ifanc. Tendrodd Cywaith yn llwyddiannus, a sicrhau contract gan Lywodraeth Cymru i sefydlu a darparu gwasanaeth eiriolaeth a chyngor newydd 24 awr. Mae gan Plant yng Nghymru gyfrifoldebau Cadeirio ychwanegol ar gyfer consortiwm Cywaith.

**Y Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth** sy'n darparu cyfle i ymarferwyr yn y maes rannu ymarfer, profiad a gwybodaeth am eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae'n cyfrannu at wella datblygiad ymarfer eiriolaeth ledled Cymru.

**Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan** sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at ddatblygu eiriolaeth effeithiol yng Nghymru. Ei nod yw hybu gwaith partneriaeth a strategaethau datblygiadol rhwng sefydliadau. Mae'n hwyluso datrys problemau ac yn datrys achosion posibl o wrthdaro buddiant.

Grŵp o sefydliadau gwirfoddol yw **Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)**, ac mae'n ceisio amddiffyn a hybu hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru. Nod y grŵp yw gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi, er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cyflawni hyd eithaf eu potensial. Plant yng Nghymru sy'n cadeirio ac yn hwyluso'r grŵp hwn.

Mae'r **Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd** yn cwrdd yn rheolaidd yn Ne Cymru er mwyn rhoi cyfle i ymarferwyr rannu arbenigedd a gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae'r **Grŵp Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc** yn galluogi ymarferwyr yng Ngogledd Cymru i gwrdd yn rheolaidd i rannu arbenigedd a gwybodaeth ar ystod o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae'r **Fforwm Darparu Gwasanaeth Integredig** yn dod â gweithwyr proffesiynol sy'n arwain datblygiad y Tîm o Gwmpas y Teulu ynghyd o bob rhan o Gymru, fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod y fforwm yw cynnig cefnogaeth cymheiriaid i reolwyr sy'n ymwneud â datblygu gwasanaethau lleoledig. Mae hefyd yn gyfle i weithwyr proffesiynol rannu arfer da a gwybodaeth wrth ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth ledled Cymru.

Mae **Linc3** yn cefnogi'r trydydd sector gyda materion sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n galluogi cynrychiolwyr o Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol i wella gwybodaeth a chynnig cefnogaeth a dealltwriaeth o'r ddeutu er mwyn cryfhau eu gwaith oddi mewn i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r aelodau'n hyrwyddo cynrychiolaeth y trydydd sector ac yn hybu hawliau plant.

Mae'r **Grŵp Polisi Plant Anabl** yn dod â'r rhai sydd â brîff polisi ynghylch anabledd ynghyd er mwyn amlygu materion a phryderon ynghylch gwasanaethau i blant anabl. Nod y grŵp yw dylanwadu ar bolisi cyhoeddus a chraffu ar ddeddfwriaeth yng Nghymru er lles plant a phobl ifanc anabl.

Grŵp amlasiantaeth yw'r **Gyfnewidfa Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal** sy'n

ceisio helpu i dywys polisi ledled Cymru er mwyn hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu ymarfer a gwybodaeth.

Mae'r **Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta** yn rhwydwaith ar gyfer y rhai sydd â rôl gydlynu strategol o ran cefnogi rhianta yn eu Hawdurdod Lleol. Mae'r cyfarfodydd bob chwarter yn gyfle i'r cydlynwyr rannu materion, atebion, ymchwil a pholisi gyda'u cydweithwyr.

Sefydlwyd **Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru** i sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud â'r agenda gwrthfwlio, mewn ysgolion a chymunedau, yn cael eu gwerthuso a'u cydlynu. Mae'r grŵp yn cwrdd i greu llais cryf i herio a chefnogi gwaith gwrthfwlio ar lefel genedlaethol a lleol. Mae hefyd yn gyfle i rannu ymarfer a nodi pryderon cyffredin.

Clymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant yw **Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru**. Fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001, ac mae'n gweithio i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o dlodi plant yng Nghymru a mesurau i ddod â hynny i ben. Mae'n lobïo dros bolisïau ar bob lefel yn y llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Mae'r **Rhwydwaith Dechrau'n Deg** yn cwrdd bob chwarter, ac yn dod â Chydlynwyr Dechrau'n Deg ynghyd o'r 22 Awdurdod Lleol. Hefyd trefnir cyfarfodydd a gweithdai ychwanegol yn ôl y galw. Mae'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cynnwys holl reolwyr y rhaglen mewn Awdurdodau Lleol yn ogystal â rheolwyr Llywodraeth Cymru.

Mae'r **Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc** yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, a hefyd yn cynnal cyfarfodydd is-grŵp ar bynciau penodol. Mae'r rhwydwaith yn agored i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn rhannu materion a phryderon ac yn cefnogi datblygiad arfer da. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n cwrdd i nodi materion allweddol sy'n destun pryder, ac mae'n cael cyfle i gyflwyno pryderon i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

Bu'r **Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth ac Ymarfer ynghylch Damweiniau Plant (CHAPPIE)** yn gweithio i atal damweiniau ac anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n cefnogi ymarferwyr, rheolwyr a llunwyr polisi yn eu rolau cysylltiedig ag atal anafiadau. Daeth y rhwydwaith hwn i ben ddiwedd Mawrth 2015.

***"Mae'r cyfathrebu rheolaidd ynghylch beth mae asiantaethau partner yn ei wneud yn wych!"***
***Aelod o Plant yng Nghymru***



# Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth




Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu ystod eang o wybodaeth i helpu i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau.

## Gwefannau Plant yng Nghymru

Mae gwefan Plant yng Nghymru (www.plantyngnghymru.org.uk) yn cael ei diweddaru bob dydd. Mae'n cynnwys diweddariadau newyddion gennym ni ein hunain, ein haelodau a'r sector plant ehangach. Mae adran bolisi'r wefan yn cynnwys diweddariadau ar ddeddfwriaeth a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

## Gwefan Cymru Ifanc

Datblygwyd gwefan Cymru Ifanc (www.cymruifanc.org.uk) rhwng Ionawr a Mawrth 2015 i gefnogi ein gwaith cyfranogiad. Mae'n ganolbwynt gwybodaeth ar gyfer y gwaith mae fforymau ieuenctid, ysgolion, sefydliadau partner ac unigolion yn ei wneud. Mae'r wefan hefyd yn caniatáu i ni rannu gwybodaeth am waith Cymru Ifanc a chyfleoedd i bobl ifanc chwarae rhan a chael clywed eu lleisiau.

## Gwasanaethau E-friffio

Mae'r e-friffiad i'n haelodau yn cael ei ddosbarthu bob mis. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau ynghylch datblygiadau polisi a newyddion. Mae'r e-friffiad Polisi'n cael ei ddosbarthu i fwy na 3000 o unigolion, ac mae'r adborth gan yr aelodau'n dangos ei fod hefyd yn cael ei rannu'n llawer ehangach o fewn y sector plant yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynhyrchu e-friffiadau rheolaidd i'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant a'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

## Twitter

Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hybu gweithgareddau a chyhoeddiadau, yn ogystal â pholisi newydd, gan ddefnyddio ein cyfrifon, @childreninwales ac @plantyngnghymru. Ddiwedd Mawrth 2015 roedd gennym ni 2641 o ddilynwyr yn Saesneg a 233 yn Gymraeg.
Mae cyfrif Twitter ar wahân wedi cael ei sefydlu ar gyfer Cymru Ifanc, @ youngwalesCIW, a fydd yn cael ei ddefnyddio'n offeryn ymgysylltu arall â phobl ifanc a'r gweithlu.

**"Mae'r cyfathrebu ar e-bost bob amser yn gymwys, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Mae'r amlder yn dda"**
**Aelod o Plant yng Nghymru**


# Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Mae Cylchgrawn Plant yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi bob chwarter, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o newyddion ac erthyglau nodwedd. Mae'n crynhoi datblygiadau polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf gan Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys erthyglau manwl a chyfweliadau ar bynciau pwysig, yn ogystal â cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a MEIC Cymru.




### Gwanwyn-Haf 2014

- Tlodi plant a theuluoedd
- Cyfweliad: Vaughan Gething AC, Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi
- Mae pob plentyn yn haeddu dechrau teg
- Petaem ni'n dileu tlodi plant, sut le fyddai Cymru?
- Cefnogaeth i ymgynghorwyr yng Nghymru sy'n delio gydag achosion o




### Hydref 2014

- Y Gymru a garem
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Cyfweliad: Ayesha o T4R
- Tlodi ac anabledd
- Egwyliau byr
- Cyfleoedd Gwirioneddol
- Carchariad Rhieni




### Gaeaf 2014/15

- Canllaw newydd i ofalwyr sy'n berthnasau
- Ymgyngoriadau Blynyddoedd Cynnar
- Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant
- Canllawiau rhianta
- Bod yn rhiant i rai yn eu harddegau
- Cefnogi teuluoedd sy'n ceisio lloches
- Cyrsiau diogelwch tân
- Newyddion atal damweiniau

# Polisi, ymarfer, datblygu ac ymchwil

Mae llawer o waith Plant yng Nghymru yn ymwneud â hybu datblygiad polisi ac ymarfer. Yn ystod 2014/15 fe wnaethom ni gyflawni ystod eang o weithgareddau oedd yn hybu datblygiad polisi ac ymarfer ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys:

### Bwlio

Datblygodd Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru (PBBG) bedwar digwyddiad 'Gweithdy Jigsô', a gyflwynwyd mewn gwahanol rannau o Gymru eleni. Digwyddiadau thematig oedd y gweithdai Jigsô, yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar fwlio; Deall, atal, ymyrryd ac




agweddau. Ymhlith y materion a godwyd yn y digwyddiadau hyn roedd:

- Anghysondeb o ran deall bwlio a pholisi ar draws awdurdodau a sectorau
- Hyfforddiant annigonol i ymarferwyr ac athrawon a chymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys rhieni
- Diffyg adnoddau, yn enwedig adnoddau wedi'u targedu i weithio gyda'r targed, y bwli a'r sawl sy'n gweld y peth yn digwydd

Y flwyddyn nesaf mae PBBG yn bwriadu datblygu rhwydwaith gwrthfwlio i bobl ifanc.

Bydd Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio Cymru Gyfan, sydd newydd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru, yn atebol i'r Gweinidogion Addysg a Sgiliau, Cymunedau a Threchu Tlodi a Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Fe'i sefydlwyd i helpu i fynd i'r afael â'r bwlio ar blant a phobl ifanc mewn ysgolion a'r gymuned ehangach. Bydd ei waith yn cael ei lywio gan adroddiad diweddar Estyn ynghylch effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan ysgolion i ymdrin â bwlio ar sail nodweddion a amddiffynnir disgyblion ac yn sgîl 'Trechu Troseddau a Digwyddiadau Atgasedd: Fframwaith ar gyfer Gweithredu'. Mae Plant yng Nghymru yn cynrychioli'r Trydydd Sector, a hefyd yn cynrychioli pobl ifanc yn y grŵp.

### Cymorth i deuluoedd a rhianta

Cyhoeddwyd ein canllaw gofal gan berthnasau ym mis Tachwedd 2014. Fe'i noddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i ddatblygu gan Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y Canllaw i gynnig gwybodaeth i ofalwyr sy'n berthnasau. Gall gofalwyr sy'n berthnasau hefyd gael eu galw'n ofalwyr sy'n deuluoedd a ffrindiau. Y nod yw cynnig canllaw cam wrth gam ar gyfer y broses o ddod yn ofalwr sy'n berthynas, gan gyfeirio at y gwasanaethau sy'n medru cynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth.

Cynhaliodd Plant yng Nghymru gynhadledd Wythnos Rhieni yn 2014. Eleni, bu'r gynhadledd ar y thema hon yn edrych yn benodol ar gryfhau cyfraniad gwasanaethau cymorth rhianta i gymorth ymyrraeth gynnar i deuluoedd. Bu'r cyfranogwyr yn ystyried negeseuon allweddol gan siaradwyr ynghylch ymchwil ymyrraeth gynnar, gan gynnwys prif egwyddorion a chynhwysion rhaglenni rhianta llwyddiannus.

### Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Plant yng Nghymru yw cadeirydd TSANA

(Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector), sef grŵp o sefydliadau gwirfoddol sy'n ceisio amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru. Ar hyd 2014/15 rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Aelodau Cynulliad a sefydliadau eraill i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cyrchu'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni hyd eithaf eu potensial. Rhoddodd swyddog datblygu Plant yng Nghymru gyflwyniad i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn mewn cyfarfod Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector, a arweiniodd at sefydlu Cynghrair Anghenion Ychwanegol Trydydd Sector/Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2015. Rôl y grŵp oedd dod â chynrychiolwyr TSANA at ei gilydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i weithredu fel 'ffrind beirniadol' trwy ddarparu syniadau, cynigion ac awgrymiadau i gefnogi datblygiad y Bil arfaethedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac yn arbennig, y Côd drafft atodol ar ADY.

### Gwasanaethau Cymdeithasol

Cynrychiolwyd Plant yng Nghymru ar y grwpiau technegol oedd yn cyfrannu at ddatblygu'r rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Côd Ymarfer/canllawiau statudol. Roedd y rhain yn cynnwys y grŵp Technegol Ataliaeth ac Asesiad Poblogaeth, lle rhannwyd barn yr aelodau ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau cymunedol ataliol yn derbyn adnoddau llawn. Bu staff Plant yng Nghymru hefyd yn cyflwyno sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth ar y Ddeddf ac yn ymgysylltu'n llawn â'r aelodau yn ystod yr ymgynghori ar y Codau Ymarfer drafft.

### Tlodi

Ym mis Rhagfyr 2014, lansiodd Plant yng Nghymru ein hadroddiad, Torri Cylch Anfantais, fel rhan o Gynghrair y Deyrnas Unedig er Buddsoddi mewn Plant. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif ddeddfwriaeth, polisïau a rhaglenni ar gyfer trechu tlodi plant a thorri cylch anfantais yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y prosiect yn rhan o'r gwaith ehangach yn Ewrop ar weithredu Argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd: Buddsoddi mewn Plant – Torri Cylch Anfantais. Trefnwyd cynhadledd hefyd ym mis Rhagfyr i rannu arfer gorau o'r pedair gwlad.

### Atal damweiniau

Yn ystod gwanwyn 2014, bu Plant yng Nghymru'n gweithio gyda'r BMA yng Nghymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymgyrchu ynghylch risgiau defnyddio sachau cewynnau untro, sy'n achosi perygl mogi difrifol i fabanod. Cafodd posteri a thaflenni dwyieithog eu creu fel rhan o'r ymgyrch hon a'u dosbarthu ledled Cymru.



# Ymgynghori

Un o brif rolau Plant yng Nghymru yw cyfleu barn yr aelodau i lunwyr polisi. Rydym ni'n ymateb i ystod eang o ymgyngoriadau ac yn cysylltu â'n haelodau, fforymau a rhwydweithiau i sicrhau bod ein hymatebion yn amlygu'r holl faterion sy'n berthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes. Mae copïau o'n holl ymatebion ymgynghori ar gael yn ardal bolisi ein gwefan. Yn ystod 2014/15 fe fuom ni'n ymateb i'r ymgyngoriadau canlynol:

### Ymatebion Ymgynghori

- Papur Gwyn ar Iechyd Cyhoeddus, Gorffennaf 2014, Llywodraeth Cymru
- Ymgynghoriad Papur Gwyn ar Atal Troseddu gan Bobl Ifanc, Ebrill 2014, Llywodraeth Cymru
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Cynigion Terfynol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, Ebrill 2014, Llywodraeth Cymru
- Ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant y Deyrnas Unedig 2014-17, Mai 2014, Llywodraeth y Deyrnas Unedig
- Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, Gorffennaf 2014, Llywodraeth Cymru
- Cefnogi Rhianta, Medi 2014, Llywodraeth Cymru
- Cynllun 10-mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru, Rhagfyr 2014, Llywodraeth Cymru
- Adolygu Dyletswydd Awdurdodau Lleol i Asesu Digonolrwydd Gofal Plant, Hydref 2014, Llywodraeth Cymru
- Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar, Ionawr 2015, Llywodraeth Cymru

### Ymchwiliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) – ymatebodd Plant yng Nghymru i'r ymgynghoriad gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Chydraddoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod Cyfnod 1 y craffu ar y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)



# Cynrychiolaeth

Mae Plant yng Nghymru yn amlygu pryderon ein haelodau ac yn hwyluso datblygiad yr agenda plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau. Yn ystod 2014/15 roedd y rhain yn cynnwys:

**Llywodraeth Cymru**

- Grŵp Datblygu Agored
- Bwrdd Partneriaeth Safiad a Symudedd Cymru Gyfan
- Y Rhwydwaith Gwrthfwlio
- Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid CAFCASS Cymru
- Grŵp rhanddeiliaid y mesur gofalwyr
- Grŵp Ymgynghorol Cyflwyno CAMHS
- Sefydliadau Gofal Plant a Chwarae
- Cynghrair Cymorth yn ôl dymuniadau Dinasyddion Cyngor Cymru
- Mynediad Uniongyrchol at y Fydwraig
- Rhwydwaith y gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Bwrdd Darparu Gwasanaethau Effeithiol i Blant Agored i Niwed
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Monitro Teuluoedd yn Gyntaf
- Grŵp Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn
- Fframwaith Mesur Perfformiad Awdurdodau Lleol – Grŵp Gorchwyl a Gorffen
- Grŵp Llywio Cyfathrebu a Marchnata Llythrennedd a Rhifedd
- Grŵp gweithredu gwasanaethau mamolaeth
- Grŵp Marchnata MEIC
- Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
- Fframwaith gwella newydd a grŵp llywio cytgord newydd – gwasanaethau cymdeithasol
- Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Grŵp Adnewyddu'r Strategaeth i Ofalwyr
- Fforwm Partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Panel Dinasyddion y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tasglu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyfarfod Grŵp Polisi Ymgynghorol
- Grwpiau diogelu ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdeithasol – tîm Cyflawni Cryf a Phroffesiynol
- Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cyngor GOFAL Cymru
- Datganiadau neu Rywbeth Gwell
- Bwrdd Ymgynghorol Camddefnyddio Sylweddau
- Grŵp Rhanddeiliaid Trafod Gofal – Datblygu Fframwaith Canlyniadau i'r GIG
- Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Trechu Tlodi
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd cysylltiedig
- Grŵp Cyllido a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Rhwydwaith Ymgynghorol Diogelu ac Amddiffyn

**Y Cynulliad Cenedlaethol**

- Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd
- Grŵp Ymgysylltu â Ieuenctid
- Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd
- Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

**Y Deyrnas Unedig**

- Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant

**Y Sector Statudol**

- Grŵp Cynrychiolaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyngor Sir y Fflint
- Is-grŵp PPPI Nod Craidd 7 Conwy
- Derwen – Gwasanaethau Arbenigwyr Plant
- Grŵp Cynrychioli Cwsmeriaid Canolfan Byd Gwaith
- Rhwydwaith Cyfranogi Plant a Pobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd

**Academaidd**

- Pwyllgor Monitro Data Annibynnol Building Blocks (Gwerthuso Nyrsys Teulu)
- Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd DECIPHER (Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er Gwella Iechyd Cyhoeddus)
- Grŵp Llywio'r Blynyddoedd Rhyfeddol

**Iechyd**

- Grŵp Cynllunio Gweithredu CAMHS
- Grŵp Llywio'r Rhaglen Mesur Plant
- Grŵp Cyfeiriadol Rhanddeiliaid NLIAH (Yr Asiantaeth Arweinyddiaeth ac Arloesedd Genedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd)
- Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Cenedlaethol Pediatreg a Iechyd Plant (NSAG)



**Amlasiantaeth/sawl sector**

- Cyfarfod Rheolwyr Rhwydwaith Anabledd Cymru Gyfan
- Fforwm FGM Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyfarfodydd Grŵp Teulu Cymru Gyfan
- Fforymau Iechyd a Llesiant Ceisio Lloches
- Tasgluoedd Cronfa'r Loteri Fawr
- Grŵp Ymgynghorol Booktrust
- Grŵp Llwybr Plant a Theuluoedd
- Grŵp Llywio'r Blynyddoedd Cynnar
- Grŵp Llywio Llesiant Emosiynol Plant sy'n Derbyn Gofal
- Fframwaith Mesur Canlyniadau Dechrau'n Deg
- Grŵp y Clymblaid Tlodi Tanwydd
- Bwrdd Ymgynghorol Rhaglen JRF – Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru
- Grŵp Siarter Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Llywio Cenedlaethol Gwenwyno yn ystod Plentyndod
- Grŵp Llywio a Grwpiau Adolygu Thematig yr Adolygiad Cenedlaethol o Farwolaethau Plant
- Cyfarfodydd Gweithwyr Cyfranogiad Gogledd Cymru
- Bwrdd prosiect Diwygio Statudol AAA Grŵp amlasiantaeth Diwygio Statudol AAA
- Rhwydwaith Plant heb eu hebrwng a Theuluoedd sy'n Ceisio Lloches
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Bro Morgannwg – hawliau plant wrth ddiogelu

**Y Trydydd Sector**

- Grŵp Polisi Lloches Plant Cymru Gyfan
- Y Rhwydwaith Ymlyniad
- Clymblaid y Gofalwyr (cyfrannwr craidd)
- Y Cyngor plant anabl - NCB
- Cynghrair Cymorth yn ôl dymuniadau Dinasyddion Cyngor Cymru
- Y Fforwm Tlodi DIwylliannol
- Bwrdd Rheoli Cywaith
- Fforwm Plentyndod Cynnar y Biwro Plant Cenedlaethol
- Grŵp Gweithredu Cefnogi Cynnar
- Bwrdd Rheoli Dileu Tlodi Plant
- Y Glymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Fforwm Tlodi Tanwydd – De Cymru
- Fforwm Tlodi Tanwydd – Gogledd Cymru
- Bwrdd Rheoli'r Ddraig Ffynci
- Atal Damweiniau yn y Cartref – Grŵp Llywio Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid LDAN
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru
- Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru
- TSANA (Cadeirydd)
- Panel Etholaethol Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymwysterau a Sgiliau'r Deyrnas Unedig
- Grŵp Monitro CCUHP
- Bwrdd Lleisiau o Ofal a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol
- Cyngor Cymorth yn ôl dymuniadau Dinasyddion Cymru
- Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru
- Cynghrair Cynghreiriau WCVA
- Pwyllgor Gweithredol WCVA
- Bwrdd WCVA
- Tasglu Gwrthdlodi WCVA

**Rhyngwladol**

- Grŵp Llywio Polisi Eurochild
- Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop
- Grŵp Llywio Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop

# Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol

## Y Cyfryngau a chyflwyniadau

Trwy'r cyfryngau gallwn roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith ein hunain a'r pryderon sydd gennym ynghylch materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2014/15 fe wnaethom ni ryddhau nifer o ddatganiadau i'r wasg ynghylch ein digwyddiadau, ein cyhoeddiadau a materion eraill.
Mae staff Plant yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau ar y teledu a'r radio, yn lleol ac yn genedlaethol, ac i amrywiaeth o gyfryngau printedig. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i grwpiau llai, yn ogystal â chynadleddau mwy, ynghylch ein gwaith a meysydd pryder penodol i amrywiaeth o grwpiau, yn lleol ac yn rhyngwladol.

## Digwyddiadau

Mae ein cynadleddau a'n digwyddiadau yn fforwm i ddod â'r gweithlu at ei gilydd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a rhannu arfer gorau. Nod ein digwyddiadau yw amlygu materion perthnasol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru.
Yn ystod 2014/15 fe wnaethom ni gynnal ystod eang o gynadleddau a gweithdai llwyddiannus ledled Cymru. Roedd y rhain yn edrych ar bynciau oedd yn cynnwys tlodi plant a llesiant; ymyrraeth gynnar a rhianta; y blynyddoedd cynnar a gofal plant; cefnogi plant anabl sy'n siarad Cymraeg; ac atal ymddygiad bwlio.

## Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru'n darparu rhaglen o gyrsiau hyfforddi amlddisgyblaeth sy'n agored i'n haelodau a'r cyhoedd eu mynychu. Mae'r rhain yn hybu dull gweithredu integredig ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r cyrsiau'n tynnu ar adnoddau ein tîm arbenigol ninnau o staff a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, er mwyn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ledled Cymru. Mae Plant yng Nghymru yn ganolfan hyfforddi achrededig trwy Agored Cymru. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra trwy gomisiwn i sefydliadau ar gais.

## Desg gymorth a gwasanaethau cyfeirio

Mae gan Plant yng Nghymru wasanaeth gwybodaeth a chyfeirio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector plant. Fe wnaethom ni dderbyn dros 200 o ymholiadau yn ystod 2014-15. Roedd hyn yn cynnwys cynghori pobl ar ofal plant a chael mynediad i raglen Dechrau'n Deg, amddiffyn plant, rhianta, tlodi plant a materion cyswllt.



# Cynadleddau a digwyddiadau eraill




**Yn ystod 2014/15 cynhaliodd Plant yng Nghymru y digwyddiadau canlynol:**

## Cynadleddau

- Cynhadledd Wythnos Rhieni, 10 Medi 2014
- Cynhadledd Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru – 'Deall Anghenion y Glasoed', 8 Hydref 2015
- Cynhadledd y Deyrnas Unedig ar Dlodi Plant a Llesiant – Buddsoddi mewn Plant: Torri Cylch Anfantais, 16 Rhagfyr 2014
- Cynhadledd Flynyddol Plant yng Nghymru: Pwysigrwydd y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant – pam mae'n bwysig gwneud pethau'n iawn, 20 Ionawr 2015
- Cynhadledd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Phobl Ifanc, 18 Mawrth 2015
- Cynhadledd Rianta: Ymyrraeth Gynnar a Rhianta – cryfhau cyfraniad gwasanaethau cymorth rhianta, 3 Mawrth 2015

## Digwyddiadau Eraill

- Atal Ymddygiad Bwlio – Gweithdy Jigsô, 10 Mehefin 2014
- Wythnos Ffoaduriaid – Digwyddiad Cynnwys Teuluoedd, 18 Mehefin 2014
- Atal Ymddygiad Bwlio – Gweithdy Jigsô 2, 1 Gorffennaf 2014
- Atal Ymddygiad Bwlio – Gweithdy Jigsô 3, 15 Medi 2014
- Digwyddiad ymgynghori ar gynllun 10 mlynedd drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru, 11 Tachwedd 2014
- Digwyddiad ymgynghori ar gynllun 10 mlynedd drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru, 1 Rhagfyr 2014
- Cefnogi plant a phobl ifanc anabl sy'n siarad Cymraeg – gogledd Cymru, 11 Chwefror 2015
- Cefnogi plant a phobl ifanc anabl sy'n siarad Cymraeg – de Cymru, 10 Mawrth 2015

# Hyfforddiant

**Mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi agored a hyfforddiant wedi'i deilwra a gomisiynwyd gan asiantaethau allanol.**

### Hyfforddiant agored Plant yng Nghymru

Yn ystod 2014/15 cynhaliodd Plant yng Nghymru raglen brysur a llwyddiannus o hyfforddiant agored. Roedd ein llyfryn hyfforddiant yn cynnwys amrywiaeth uchelgeisiol o hyfforddiant, gan gynnwys pynciau newydd, yn ogystal ag enghreifftiau a gynhaliwyd yn llwyddiannus yn y gorffennol. Ymhlith y pynciau roedd amddiffyn plant, e-ddiogelwch, gweithio gyda thadau, ymwybyddiaeth ddiwylliannol wrth ddiogelu, cefnogi rhieni, gweithio gyda grwpiau a meithrin gwydnwch pobl ifanc.

### Hyfforddiant a gomisiynwyd

Mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant mewnol yn rheolaidd ar gyfer sefydliadau sydd am gael gwasanaeth wedi'i deilwra.

Ymhlith y pynciau craidd mae Plant yng Nghymru'n darparu hyfforddiant arnynt mae amddiffyn plant, meithrin gwydnwch pobl ifanc, gweithio gyda gwrywod pwysig ac atal damweiniau yn y blynyddoedd cynnar, er ein bod hefyd yn darparu hyfforddiant mewnol ar unrhyw bynciau sy'n cael eu hysbysebu yn ein rhaglen agored o hyfforddiant.

### Hyfforddiant amddiffyn plant i ymarferwyr deintyddol

Mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant amddiffyn plant ar gyfer Deoniaeth Addysg Ôl-raddedig i Ddeintyddion Cymru. Rydym yn cael ein contractio i ddarparu hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2, yn fewnol, i holl staff practisau deintyddol a Chanolfannau Ôl-raddedig yng Nghymru. Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015 fe wnaethom ni gyflwyno 88 o sesiynau hyfforddiant amddiffyn plant i ymarferwyr deintyddol ledled Cymru.

### Datblygu'r Gweithlu Caerdydd

Mae Plant yng Nghymru wedi parhau â'n gwaith llwyddiannus gyda Datblygu'r Gweithlu Caerdydd, gan gyflwyno hyfforddiant amddiffyn plant i warchodwyr plant a staff sy'n gweithio mewn meithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol yng Nghaerdydd. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni gyflwyno 12 sesiwn hanner diwrnod ar gynyddu ymwybyddiaeth ym maes amddiffyn plant i ryw 200 o staff sy'n gweithio gyda phlant, ac fe wnaethon ni hefyd gyflwyno chwe chwrs 2 ddiwrnod Lefel 3 Achrededig, Deall sut mae Diogelu Llesiant plant a phobl ifanc, i fwy na 100 o staff.

### Canolfan Hyfforddiant Achrededig

Mae Plant yng Nghymru wedi cyflawni statws canolfan i gynnal cyrsiau hyfforddi wedi'u hachredu, gydag Agored Cymru yn gorff dyfarnu. Cawsom adroddiad rhagorol gan Agored Cymru yn dilyn ein blwyddyn lawn gyntaf fel canolfan achrededig, gan i'r Adolygwyr Ansawdd nodi bod: "Y ganolfan yn defnyddio system ar-lein drawiadol sy'n gyffredinol hawdd ei defnyddio i'r dysgwyr gasglu tystiolaeth am asesu, ac i'r staff ddarparu tystiolaeth o broses sicrhau ansawdd fewnol effeithiol... Mae rôl y dilysydd mewnol yn un syml oherwydd cymhwysedd, agweddau a phroffesiynoldeb yr aseswyr. Mae'r dysgwyr yn cael eu cefnogi'n dda ac mae'r adborth i ddysgwyr yn gadarnhaol, yn berthnasol, yn adeiladol ac yn ddatblygiadol."

### Sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr CCUHP i Weithwyr Proffesiynol

Cyflwynodd Plant yng Nghymru gyfres lwyddiannus o sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr o dan ddyletswydd Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP (Erthygl 42). Roedd hyn yn cynnwys 22 cwrs hyfforddi undydd llawn gyda 274 o gynrychiolwyr.

Bu gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o sectorau oedd yn cynnwys iechyd, gwaith ieuenctid, a'r heddlu yn cymryd rhan yn ein sesiynau rhyngweithiol difyr, gan fanteisio ar sgiliau ac adnoddau i hyrwyddo CCUHP ymhellach yng nghyd-destun eu sefydliadau.

***"Roedd hwn yn gwrs gwych. Cwrdd â llu o weithwyr proffesiynol eraill o wahanol gefndiroedd a fu'n rhannu syniadau rhagorol ac arfer da."***
***Cyfranogwr ar yr hyfforddiant Cadw'n Plant yn Ddiogel***

# Cyrsiau hyfforddi agored yn ystod 2014/15:



*"Cwrs da iawn, amrywiaeth o weithgareddau ymarferol i ymgysylltu â'r grwpiau trafod. Addysgu clir gyda llu o ffeithiau diddorol. Sesiwn hyfforddi ragorol, oedd yn cynnwys digon i gnoi cil arno."*
Cyfranogwr ar y cwrs Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant

- **Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant**, 2 Ebrill 2014, Merthyr Tydfil
- **Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant**, 7 Mai 2014, Abertawe
- **E-ddiogelwch gyda phlant o dan 8 oed**, 9 Mai 2014, Merthyr Tydfil
- **Gweithio'n gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar**, 12 Mai 2014, Wrecsam
- **Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant**, 14 Mai 2014, Caerdydd
- **Gweithio'n gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar**, 23 Mai 2015, Caerdydd
- **E-ddiogelwch gyda phlant o dan 8 oed**, 12 Mehefin 2015, Caerfyrddin
- **Cadw ein Plant yn Ddiogel: Hyfforddiant ar gyfer Personau Amddiffyn Plant Dynodedig**, 24 Mehefin 2014, Caerdydd
- **Meithrin Gwydnwch Pobl Ifanc**, 3 Gorffennaf 2014, Caerdydd
- **E-ddiogelwch gyda phlant o dan 8 oed**, 9 Gorffennaf 2014, Caerdydd
- **Cadw ein Plant yn Ddiogel: Hyfforddiant ar gyfer Personau Amddiffyn Plant Dynodedig**, 10 Gorffennaf 2014, Caerfyrddin
- **Deall sut mae Diogelu Lles Plant a Phobl Ifanc – Hyfforddiant Achrededig Lefel 2 trwy Agored Cymru**, 16 Gorffennaf 2015, Caerdydd
- **Meithrin Gwydnwch Pobl Ifanc**, 18 Gorffennaf 2015, Caerfyrddin
- **Gweithio gyda Grwpiau**, 10 ac 11 Medi 2014, Caerdydd
- **Hyfforddi'r Hyfforddwyr – Hawliau Plant a CCUHP**, 16 Medi 2015, Caerdydd
- **Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant**, 17 Medi 2014, Merthyr Tydfil
- **Goruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer**, 17 Medi 2014, Caerdydd
- **Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar**, 23 Medi 2014, Caerdydd
- **Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant**, 1 Hydref 2014, Castell-nedd
- **E-ddiogelwch gyda phlant o dan 8 oed**, 2 Hydref 2014, Caerdydd
- **Goruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer**, 8 a 9 Hydref, Rhyl
- **Hyfforddi'r Hyfforddwyr – Hawliau Plant a CCUHP**, 15 Hydref 2014, Caerfyrddin
- **Cadw ein Plant yn Ddiogel: Hyfforddiant ar gyfer Personau Amddiffyn Plant Dynodedig**, 20 a 21 Hydref, Caerdydd
- **Hyfforddi'r Hyfforddwyr – Hawliau Plant a CCUHP**, 30 Hydref 2014, Llandrindod
- **Cydraddoldeb a Chynhwysiad Plant Anabl**, 5 Tachwedd 2014, Caerdydd
- **Hyfforddi'r Hyfforddwyr – Hawliau Plant a CCUHP**, 18 Tachwedd 2014, Hen Golwyn
- **Gweithio gyda Thadau**, 20 Tachwedd 2014, Casnewydd
- **Deall sut mae diogelu lles plant a phobl ifanc – Hyfforddiant Achrededig Lefel 3 trwy Agored Cymru**, 26 Tachwedd 2014 – 3 Rhagfyr 2015, Caerdydd
- **Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, 8 Rhagfyr 2014, Caerdydd
- **Datblygiad yr Ymennydd a Rhianta Cadarnhaol**, 10 Rhagfyr 2014, Caerdydd
- **Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, 8 Rhagfyr 2014, Caerdydd**
- **Datblygiad yr Ymennydd a Rhianta Cadarnhaol, 10 Rhagfyr 2014, Caerdydd**

# Prosiect Cynnwys Teuluoedd



Prosiect a reolwyd gan Plant yng Nghymru, gyda chyllid o'r Loteri Fawr, oedd Cynnwys Teuluoedd, ac roedd yn gweithio gyda theuluoedd a chymunedau Mudol, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches i amddiffyn a diogelu plant yn y teuluoedd hyn. Cychwynnodd y Prosiect yn hwyr yn 2011, gan barhau tan fis Hydref 2014, i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut mae amddiffyn a hybu llesiant plant, gan gynwys dulliau rhianta cadarnhaol i wella'r rhianta a'r cyfathrebu mewn teuluoedd, a chadw plant yn ddiogel ac yn saff yn amgylchedd eu cartref.

Nod y Prosiect oedd cynyddu lefelau o ddealltwriaeth, oddi mewn i deuluoedd a chymunedau, o'u rôl hanfodol yn niogelwch, llesiant, addysg, iechyd a datblygiad plant. Roedd hyn yn cynnwys eu gwneud yn ymwybodol o gyfraith ac ymarfer amddiffyn plant yng Nghymru, sy'n berthnasol i bobl sydd wedi cyrraedd o wahanol wledydd a diwylliannau.

Yn ogystal â gweithio gyda grwpiau cymunedol, roedd y prosiect yn cynnig sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ym meysydd addysg, gofal cymdeithasol a iechyd, ar yr heriau penodol wrth ddiogelu plant mewn cymunedau mudol, ffoaduriaid a rhai sy'n ceisio lloches. Roedd y sesiynau hyn yn trafod mathau penodol o gam-drin plant a allai ddigwydd mewn teuluoedd a chymunedau, ac ymwybyddiaeth o wahanol arferion diwylliannol a all beri pryder i ymarferwyr. Er bod y prosiect bellach wedi dod i ben, mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol wrth ddiogelu plant yn dal ar gael trwy hyfforddiant Plant yng Nghymru.

I gyd-fynd â gwaith y prosiect, datblygodd Plant yng Nghymru wefan sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau amlieithog, sy'n darparu gwybodaeth i deuluoedd, cymunedau, unigolion, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymgysylltu â theuluoedd mudol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ynghylch materion a phryderon sy'n effeithio ar y teuluoedd hyn a'u plant. Bydd y wefan yn dal ar gael tan 2016, a gellir dod o hyd iddi yn www.includingfamilies.org.uk.

Yn ystod cyfnod olaf y prosiect, rhwng Ebrill a Hydref 2014, pan ddaeth y prosiect i ben, cyflwynwyd llawer o ddiwrnodau hyfforddi a gweithdai i geiswyr lloches a ffoaduriaid, cyrff trydydd sector, a hefyd i ddarparwyr tai Asiantaeth Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig. Bu gweithiwr datblygu'r prosiect yn ymwneud yn helaeth â threfnu a chyflwyno'r Wythnos Ffoaduriaid yn 2014, oedd yn cynnwys trefnu bod grŵp o blant oedd yn ceisio lloches yn rhoi cyflwyniad i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn y digwyddiad lansio Wythnos Ffoaduriaid yn y Senedd.

Uchafbwynt 2014 oedd cynhadledd diwedd y Prosiect, a gynhaliwyd hefyd yn ystod Wythnos Ffoaduriaid. Roedd y gynhadledd yn agored i ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl fudol, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr o amrywiaeth o gyrff statudol a thrydydd sector, ac yn cynnwys cyfuniad o gyflwyniadau gan siaradwyr a gweithdai. Cafwyd cinio amlddiwylliannol helaeth, gyda bwyd o bob rhan o'r byd, ac roedd yn fraint cael cwmni Jeff Cuthbert, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd; cafodd y diwrnod cyfan ei gydnabod yn llwyddiant.

INCLUDING FAMILIES PROJECT

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Gyda'n Gilydd dros Hawliau (T4R)



Nod grŵp 'Gyda'n Gilydd dros Hawliau' (T4R) Plant yng Nghymru yw dod â phobl ifanc anabl o bob rhan o Gymru at ei gilydd a rhoi cyfleoedd iddyn nhw wneud y canlynol:

- Cwrdd a chael hwyl
- Deall eu hawliau
- Codi materion sy'n destun pryder yn eu bywydau pob dydd
- Cael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cyfoedion
- Meithrin eu gallu, trwy gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, i ddod yn aelodau gweithredol o'u cymunedau lleol.

Mae T4R wedi ymwneud â sawl digwyddiad eleni. Ddiwedd mis Ionawr, daeth 15 aelod o'r grŵp Dynamic Future yn Wrecsam at ei gilydd ar gyfer diwrnod o hyfforddiant wedi'i achredu oedd yn trafod 'Cyfranogiad Pobl Ifanc – Cael Llais'. Nod y prosiect Dynamic Future yw cefnogi pobl ifanc anabl 14-25 oed nad ydynt yn derbyn gwasanaeth pontio. Hon oedd y drydedd sesiwn o hyfforddiant wedi'i achredu a gynhaliwyd gan T4R, gyda'r nod o rymuso pobl ifanc anabl a'u helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o gyfranogiad a'u hawl i gael gwrandawiad ac ystyriaeth i'w barn.

Daeth aelodau o T4R o bob rhan o Gymru at ei gilydd yn yr hydref i gyfranogi mewn gweithdy drama diwrnod llawn ar droseddau atgasedd ar sail anabledd. Cyflwynwyd y gweithdu gan Gwmni Theatr Taking Flight, yn beilot ar gyfer eu cynhyrchiad 'Real Human Being', cyn iddo gael ei lansio'n ffurfiol ym mis Hydref.

Cynhyrchiad theatr fforwm yw 'Real Human Being', ac mae'n archwilio materion yn ymwneud â throseddau atgasedd ar sail anabledd a'u heffaith ar ddioddefwyr. Prosiect tair blynedd yw hwn, wedi'i ariannu gan grant Cydraddoldeb a Chynhwysiad Llywodraeth Cymru.

Ariannwyd gweithgareddau eleni gan Sefydliad Banc Lloyds, ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw am ddarparu'r adnoddau ariannol i alluogi T4R i barhau i weithio gyda phobl ifanc anabl ledled Cymru.

LLOYDS BANK FOUNDATION England & Wales

*"Roeddwn i'n hoffi siarad o flaen pobl a rhoi fy marn, gan nad wyf fel arfer yn cael ei wneud."*
*Aelod o T4R*

# Llywodraethiant

**Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n ymdrin â chyllid a llywodraethiant y sefydliad, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o aelodau. Etholir naw o'r aelodau hyn, ac mae tri arall wedi'u penodi. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am uchafswm o ddau gyfnod o dair blynedd, a gellir eu hailethol neu eu hailbenodi ar ddiwedd eu cyfnod cyntaf o wasanaeth. Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2014/15 oedd:

- John Valentine Williams OBE (Cadeirydd)
- Diane Daniel (Is-gadeirydd)
- Stuart Chapman (Trysorydd)
- Roger Bishop
- Dr Iolo Doull, Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant yng Nghymru
- Mike Greenaway, Chwarae Cymru
- Yvonne Rodgers, Barnardo's Cymru
- Emily Warren
- Yr Athro Jonathan Scourfield, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd
- Hannah Williams, Tŷ Hafan
- Carol Daniel, CBS Rhondda Cynon Taf
- Dr Dave Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

## Y Cyngor Polisi

Mae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n cyflwyno argymhellion ynghylch materion polisi plant a phobl ifanc i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ond heb swyddogaeth lywodraethu. Mae ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru hefyd yn dod yn aelodau o'r corff hwn yn awtomatig. Aelodau'r Cyngor Polisi yn ystod 2014/15 oedd:

### Corff Cynrychioliadol (penodedig, hyd at 10 o aelodau)

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (cynrychiolir gan Joanna Davies/Pierre Bernhard Grout, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru (cynrychiolir gan Rachel Shaw)
Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant yng Nghymru (cynrychiolir gan Dr Nia John)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (cynrychiolir gan Joanna Davies a Stewart Blythe)
Conffederasiwn y GIG
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (cynrychiolir gan Leighton Rees, CBS Sir Ddinbych)

### Aelodau Etholedig

Keith Ingham (tan fis Hydref 2014, yna Gwilym Roberts), Relate Cymru
Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)
Yr Athro Alison Kemp, Adran Iechyd Plant, Prifysgol Caerdydd (tan fis Hydref 2014)
Des Mannion, NSPCC Cymru
Jan Leightley (tan fis Hydref 2014, yna Brigitte Gater, Gweithredu dros Blant)
Cherrie Galvin, Bwrdd Esgobaethol Cyfrifoldeb Cymdeithasol Abertawe ac Aberhonddu
Dr Elspeth Webb, Ysbyty Prifysgol Cymru
Christine Walby OBE
Dr Dave Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin
David Egan
Mo Sykes, YMCA Cymru (tan fis Hydref 2014)
Chris Elmore, CBS Bro Morgannwg (tan fis Hydref 2014)
Helen Mary Jones, Youth Cymru
Dr Susan Evans, Prifysgol Bangor a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys (o fis Hydref 2014)
Lynne Osborne, Coleg Cymunedol YMCA Cymru (o fis Hydref 2014)
Diane Daniel, Tros Gynnal Plant (o fis Hydref 2014)

### Arsylwyr

CAFCASS Cymru
Llywodraeth Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Y Loteri Fawr
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

# Aelodaeth

Yn ystod 2013/14 roedd gan Plant yng Nghymru gyfanswm o 271 o aelodau, yr oedd 202 ohonynt yn aelodau sefydliadol a 42 yn unigolion. Ymunodd 27 o unigolion ychwanegol, sy'n gweithio i sefydliadau sydd eisoes yn aelodau, hefyd fel aelodau atodol.

**Aelodau Sefydliadol**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Gweithredu dros Blant
AFASIC Cymru
Canolfan y Gymuned Affricanaidd
Amgueddfa Cymru
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Cyngor Môn – Dechrau'n Deg
Arad Consulting
ASH Wales (Gweithredu ar Smygu a Iechyd yng Nghymru)
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam
Atal y Fro
Prifysgol Bangor
Barnardo's Cymru
BAWSO Ltd
BBC Children in Need
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
CBS Blaenau Gwent – Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Canolfan Therapi Plant Bobath
Booktrust Cymru
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
CBS Pen-y-bont ar Ogwr
BAAF Cymru (Y Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Brydeinig)
Bryn Melyn Care Ltd
BulliesOut
Buttle UK
CBS Caerffili
Rhwydwaith Rhieni Caerffili
CAFCASS Cymru
Fforwm Blynyddoedd Cynnar Caia Park
Calan DVS
Campfire Cymru
Canolfan Gerdd William Mathias
Canolfan Plant Jig-So
CAPIC (Cydweithio i Atal Damweiniau a Rheoli Anafiadau)
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Coleg Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Caerdydd
Cyngor Caerdydd
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)
Prifysgol Caerdydd
Cymorth i Ferched Caerdydd
YMCA Caerdydd
Care for the Family
Yr Ymddiriedolaeth Ofalwyr
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin (CYCA)
CaST Cymru
CCPAS
Cyngor Sir Ceredigion
Changing Faces
Ymddiriedolaeth Ymyrraeth Gynnar Plant
Cyngor ar Bopeth Cymru
Dinas a Sir Abertawe
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Coleg y Cymoedd
Cartrefi Plant Compass
Cyswllt Teulu Cymru
CBS Conwy
Ysgol Gynradd Coryton
Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)
Cruse Bereavement Care Cymru
Canolfan Plant Integredig Cwm Golau
Cylch Meithrin Clydach
Cymdeithas Tai Clwyd
Cyngor Gwynedd
Dangerpoint
DECIPHer, Prifysgol Caerdydd
Cyngor Sir Ddinbych
DEWIS Ltd
Discovery Student Volunteering Swansea
Dyfodol Powys Futures
Dynamix Ltd
Ethnic Youth Support Team (EYST)
EyePAT CIC
Families Need Fathers Cymru
Family Fund
Family Matters Mediation Ltd
Firebrake Wales
First Campus
Cyngor Sir y Fflint
Rhwydwaith Maethu Cymru
FPA
Full Circle Education Solutions CIC
Genus Care Ltd
Ysgol Gynradd Glyncoed
Coleg Gŵyr Abertawe
GroBrain
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
Gwerin y Coed/The Woodcraft Folk in Wales
Hafal
Hafan Cymru
Hafan Saff Cyf
Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd
Carchar EM a TTI Parc – Gwasanaethau Caethiwo a Chadw
Home Start
Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Sir Gaerfyrddin
Iaith Cyf / TWF
Landsker Child Care
Anabledd Dysgu Cymru
Llamau Ltd
Cymorth i Ferched Llanelli
Canolfan Plant Llwynhendy
Mantell Gwynedd
MENCAP Cymru
CBS Merthyr Tydfil
Mirus Wales
Cyngor Sir Fynwy
Cymdeithas Awtistig Genedlaethol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA) Cymru
Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysg (NFER)
Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot
CBS Castell-nedd Port Talbot – Adran Hyfforddiant
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
CBS Castell-nedd Port Talbot – Dechrau'n Deg
Mind Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot
NSPCC
Pathway Care
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyngor Sir Penfro
Ysgol Gymunedol Pennar
Ysgol Gynradd Gymunedol Penygarn
Uned Pobl a Gwaith
Plant Dewi
Chwarae Cymru
Gwasanaeth Gofalwyr Powys
Cyngor Sir Powys
ProMo-Cymru
Prospects for Young People
PTA UK
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyngor Hil Cymru
RAY Ceredigion
Reach
Relate Cymru
Remploy Ltd
CBS Rhondda Cynon Taf
Right From The Start (Caerffili)
RNIB Cymru
Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant
Ysgol Baratoadol Rydal Penrhos
Achub y Plant
Scope Wales
SENSE Cymru
SNAP Cymru
Solas Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Sova Cymru/Wales
Spark Blaenymaes Ltd
Ysgol Fabanod Sant Andrew
Cymdeithas Plant Dewi Sant
St John Cymru Wales
Bwrdd Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol
Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar Abertawe
TACT Cymru
Cymdeithas Tai Taf
Sefydliad Beth Johnson
The Place2Be
The Venture
The Windfall Centre
Meithrinfa a Creche
Montessori Toadhall
CBS Torfaen
Touch Trust Ltd
Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields
Tros Gynnal Plant
Tŷ Hafan
Canolfan Deulu Tŷ Hapus
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
UNICEF UK
Synod Genedlaethol Cymru, yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig (URC)
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
Cyngor Bro Morgannwg – Partneriaeth Plant
Cyngor Bro Morgannwg – Dechrau'n Deg
Lleisiau o Ofal (Cymru)
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tydfil
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cymorth i Ferched Cymru
Whizz Kidz
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Bont
Y Bont - Cartref Bontnewydd
Coleg Cymunedol YMCA Cymru
Canolfan Blynyddoedd Cynnar Ynyscynon
Ysgol Brynhyfryd
Ysgol Gyfun Gwynllyw
Ysgol Gymraeg Cwmbrân
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
Ysgol Maesincla
Ysgol Syr Thomas Jones

### Aelodau Unigol

Ms Ann Sherlock
Ms Ann Bell
Dr Anne Crowley
Ms Brenda Davis
Ms Heidi Falconer
Mr Paul Hopkins QC
Ms Ann Williams
Mr Roger Bishop
Mr Stuart Chapman
Y Cyng Christine Walby OBE
Ms Clare Lucignoli
Mrs Diane Daniel
Miss Elinor Lloyd
Mr Elvet Crowe
Yr Athro Jo Sibert
Ms Kerry Kane
Mrs Haley Jackson
Mrs Lindy Duncalf
Mr Martin Price
Mrs Jan Berry
Ms Jan Owen
Mr Jason Nancurvis
Mr John Harris
Mr John Valentine Williams OBE
Mrs Julia Tod
Dr Julie Doughty
Ms Kathryn Hemmings
Ms Kathy Cook
Mrs Lesley Conran
Mrs Lesley Parratt
Miss Liz Curtis-Rich
Ms Margaret Hanney MBE
Mrs Mary Anne Marsden
Mr Merfyn Roberts
Ms Nell Warner
Ms Pat Dunmore
Mrs Pauline Galluccio
Mrs Sarah Day
Mr Richard Hibbs
Dr Ruth Parry
Ms Sara Evans
Ms Sarah Coates
Ms Felicity Fletcher
Ms Sue Bidmead
Mr Trevor Evans
Yr Athro June Statham
Yr Athro Nigel Thomas
Miss Lucy Hodson


# Crynodeb Ariannol

| ADNODDAU I MEWN | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru; Grant Craidd (01.04.14- 30.09.14) | £279,266 |
| Llywodraeth Cymru; Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd (01.10.15-31.03.15) | £306,744 |
| Rhoddion | £1,173 |
| Incwm Buddsoddiadau | £11,119 |
| Grantiau Atodol | £128,666 |
| Taliadau Aelodaeth | £27,066 |
| **Gweithgareddau gwneud Arian** | **£403,484** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau i Mewn** | **£1,157,518** |

| ADNODDAU A WARIWYD | |
|---|---|
| *Cost cynhyrchu arian* | |
| Gwasanaethau Aelodaeth a Chymorth | £174,939 |
| Gwariant elusennol uniongyrchol | £1,025,070 |
| Costau Llywodraethu | £14,700 |
| Cyllid Pensiwn | |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a wariwyd** | **£1,214,709** |
| Incwm Net ar gyfer y Flwyddyn | **-£57,191** |

| DADANSODDIAD O'R GWARIANT ELUSENNOL YN ÔL AMCAN | |
|---|---|
| Dylanwadu ar bolisi, ymarfer a datblygiad | £306,138 |
| Plant, Pobl Ifanc a Gweithlu sydd wedi'u Cysylltu'n Well | £130,193 |
| Plant, Pobl Ifanc a Gweithlu Mwy Gwybodus | £369,936 |
| Ymgynghori a Chynrychiolaeth | £218,803 |
| Cost Cynhyrchu Incwm | £174,939 |
| Llywodraethu | £14,700 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd** | **£1,214,709** |

## Adnoddau i mewn




## Dadansoddiad o'r gwariant elusennol yn ôl amcan

